

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Ionawr 26ain 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Gary Thomas, Eifion Davies, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Gwenda Evans a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo V. Evans, Gwenda Morris a'r Cyng. Elwyn Edwards. Anfonwyd cofion at Gwenda Morris a oedd yn absennol oherwydd anhwylder iechyd.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

i) Arwydd i Gwm Main ar gyffordd y A494 – cafwyd cadarnhad nad oedd y safle wedi cyrraedd meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer gosod arwyddion newydd, yn bennaf oherwydd fod dim arwydd ffin ar gyfer ardal Cwm Main.

ii) Grantiau Prosiectau Cymunedol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - cafwyd cadarnhad fod y Cyngor Cymuned wedi bod yn llwyddiannus gyda'u cais a derbyniwyd £500 tuag at osod lloches bws newydd ym mhentref Frongoch.

iii) Trwsio'r wal o flaen y stad dai Tan y Foel, Llanfor - ers y cyfarfod diwethaf roedd cyflwr y wal wedi gwaethygu ac y bu rhaid i'r clerch gysylltu â'r gymdeithas dai Adra ar ddau achlysur i ofyn iddynt ddiogelu'r safle. Er i'r clerch bwysleisio ei fod yn fater brys adroddodd Rita Jones fod cyflwr y wal yr un fath. Cytunodd y clerch i gysylltu ag Adra unwaith eto.

iv) Adnoddau cynnal cyfarfodydd ar lein - yn dilyn trafodaeth cytunwyd i dalu am danysgrifiad Zoom. Awgrymwyd y gelli'r cynnig rhannu'r tanysgrifiad gyda Chyngor Llanycil gan fod y clerch yn gweithio iddynt hefyd.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol

i) Cylch yr Iaith - derbyniwyd copi o'r ddogfen ynglŷn â Chyflogaeth a Thwristiaeth yng Nghymru.

ii) Cais am lwybr troed o bentref Frongoch i Ganolfan Tryweryn - derbyniwyd llythyr gan un o drigolion lleol yn gofyn a oedd posib cael llwybr troed a fyddai'n galluogi i bobl gerdded yn ddiogel o'r pentref i fyny i'r Ganolfan. O dan yr amgylchiadau diweddar roedd cael mynd allan am dro wedi bod yn ddihangfa bwysig i nifer o fobol ac o les mawr i'w iechyd meddwl. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais a'i anfon ymlaen i Gyngor Gwynedd.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C20/0963/04/YA – Gwaith peiranyddol i greu 3 gwlyptir. Rhiwlas Home Farm, Rhiwlas.

C21/0036/04/LL – Adeiladu adeilad amaethyddol i orchuddio llawr concriid presennol. Gydras, Cerrigydrudion.

vi) Materion Ariannol.

a) Archwiliad Blynnyddol.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerch ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y manau perthnasol.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

c) Adolygu cyflog y clerc.

Adolygwyd cyflog y clerc a chytunwyd i'w godi 5% o ddechrau Ebrill 2021.

d) Cyllideb a Praesept 2021/22.

Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc. Cytunodd y cynghorwyr i barhau i beidio hawlio unrhyw daliadau anorfod ac y byddant yn dewis optio allan o hyn ym mis Ebrill. Cynyddwyd y gyllideb ar gyfer tal aelodaeth Un Llais Cymru, ffioedd archwiliadau, costau torri glaswellt a chynnal a chadw'r mynwentydd ac yr ad-daliad TAW. Trafodwyd y swm o arian a gadwir wrth gefn a chytunwyd bod y swm yn ddigonol. Cytunwyd ar y gyllideb derfynol a phasiwyd i gadw'r Praesept o £9,000 ar gyfer 2021-22.

dd) Archwilio Cymru.

Derbyniwyd gwybodaeth am y drefn archwilio newydd a fyddai'n rhedeg mewn cylch o 3 mlynedd. Roedd yn nodi pa flwyddyn bydd cynghorau'n derbyn yr archwiliad sy'n seiliedig ar drafodion a'r ddwy flynedd y bydd y gweithdrefnau archwilio sylfaenol yn cael eu defnyddio.

e) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Archwilio Cymru (archwiliad allanol, Zoom (tanysgrifiad blynyddol, amnewid siec 2019-20 Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel am un Newydd.

f) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Llen y Llannau, Dawns i Bawb, CFFI Meirionnydd, Radio Ysbyty Gwynedd ac Ambiwlans Awyr Cymru. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Derbyniwyd y materion isod:-

a) Biniâu halen a graeanu - dros yr wythnosau diwethaf roedd y cynghorwyr a'r clerc wedi derbyn nifer o gwynion am y diffyg graean ar gyfer ffyrdd gweledig yr ardal gan eu gadael yn beryg iawn i'r gyrwyr, gyda rhai yn ofn mentro allan rhag iddynt gael damwain. Roedd y mater wedi cael eu hamlygu wrth i weithlu Cyngor Gwynedd gasglu'r biniâu halen gwag. Roedd y clerc a'r Cyng. Elwyn Edwards wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Cyngor Gwynedd gan nad oeddynt wedi cadw at ei gair i raeanu'r ffyrdd gwledig unwaith y dydd yn ystod tywydd garw. Roedd y sefyllfa yn un bryderus iawn gan nad oedd y cynghorwyr eisiau sefyllfa'n codi lle bydau ambiwlans neu injan dan yn methu mynd i leoliad oherwydd cyflwr y ffyrdd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i geisio dod i gyfaddawd gyda Chyngor Gwynedd ac os bydd angen byddai'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu tuag at ail lenwi'r biniâu, gan ddefnyddio'r arian tu cefn i wneud hyn yn 2021.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Llwybr troed Llanfor yn llithrig iawn gan nad oedd y gweithwyr wedi clirio'r gwastraff wrth dorri'r gwrych nol yn yr hydref.

ii) Pont a Sgwâr Llandderfel yn llithrig iawn pan oedd hi'n rhewi ac roedd peryg y gall gerbyd sglefrio fewn i'r tai cyfagos. Gofynnwyd i'r clerc holi pryd oedd y gweithlu yn bwriadu gwneud y gwaith arwisgo.

ii) Rhannau o'r wal ar y A494 yn Ty Nant, Cefnddwysarn wedi disgyn,

iii) Twll yn y ffordd rhwng mynedfa fferm Cynlas a phont Cefnddwysarn, ar yr A494.

iv) Llwybr troed sy'n arwain o loches bws Cefnddwysarn i fyny am yr ysgol, angen clirio'r mwsog sy'n tyfu arno gan ei fod yn neud y llwybr yn llithrig iawn.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 2il am 7.30 y.h. drwy gyfrwng "Zoom".